

Y Gronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF) 2017-2020

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)

Canllawiau

1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau i'r rheini sy'n holi ac sydd am wneud cais am arian Cronfa Busnesau Bach a Micro (MSBF) Llywodraeth Cymru. Cronfa galwad agored yw hon sydd ar agor rhwng mis Mai 2017 a mis Rhagfyr 2020. Mae'r gronfa ar gael i Gymru gyfan. Cronfa *gyfalaf* yw hon a gefnogir drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2015-2020. Fe'i noddir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a chan Lywodraeth Cymru ac mae'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau a restrir isod.

Bydd ceisiadau llwyddiannus yn rhagori yn eu hansawdd, o safbwynt eu gradd, profiad yr ymwelydd, gwasanaeth, arloesi ac ychwanegu gwerth. Rydym am weld cynigion uchelgeisiol gan fusnesau twristiaeth bach a micro sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth, boed hynny drwy gynnyrch sy'n newid y ffordd mae pobl yn gweld pethau, neu fel rhan o glwstwr o gynhyrchion sy'n helpu i adeiladu cyrchfan. Ym mhob achos, rydym yn chwilio am brosiectau unigryw sy'n denu sylw, a pho fwyaf y llwyddir i wneud hyn, cryfaf fydd y cais.

2. Diben y Gronfa

Diben y gronfa yw datblygu cynhyrchion twristiaeth cynaliadwy o safon sy'n creu swyddi ac yn sbarduno twf mewn marchnadoedd newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Nod Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru - Partneriaeth ar gyfer Twf yw sicrhau cynnydd o 10% neu fwy yn enillion twristiaeth Cymru erbyn 2020. Mae'r strategaeth yn rhoi pwyslais ar gynnyrch a'r nod yw iddynt roi rhesymau cryf dros ymweld â Chymru a'i darganfod drwy greu profiadau o gynnyrch sydd "ar y brig".

<https://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?skip=1&lang=cy>

Cronfa buddsoddi cyfalaf ddewisol yw hon sy'n cefnogi'r amcanion hyn drwy ddatblygu profiadau cynaliadwy o safon gan fuddsoddi mewn cynhyrchion twristiaeth sy'n cael eu darparu gan y Sector Preifat a'r Trydydd Sector.



3. Blaenoriaethau

Dyma rai o flaenoriaethau'r gronfa (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- Cynhyrchion twristiaeth arloesol o safon uchel, sy'n ychwanegu at enw da.
- Gwestai moethus (estyniadau, gwelliannau a gwestai newydd).
- Atyniadau blaenllaw pob tywydd sydd ar gael gydol y flwyddyn.
- Atyniadau blaenllaw.
- Profiadau drwy Weithgareddau Arloesol.
- Profiadau bwyd sy'n unigryw Gymreig sy'n canolbwyntio ar yr ymwelydd.
- Profiadau Glampio a Gwersylla arloesol ym mhen ucha'r farchnad.
- Cyfleusterau sba a hamdden o ansawdd uchel.
- Prosiectau arloesol sy'n gysylltiedig â diwylliant neu dreftadaeth.
- Tafarndai, llety gwely a brecwast, llety gwesteion sy'n unigryw ac o ansawdd uchel.
- Mannau anghyffredin i bobl aros.

Prosiectau enghreifftiol

Y Sector â Gwasanaeth (Gwely a Brecwast i Westai)

Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sy'n targedu safon 4 neu 5 Seren. Os na lwyddir i godi'r radd ond bod y cyfleusterau'n 'amlwg' wedi gwella (e.e. spa neu le i gynadleddau / defnydd twristiaeth fusnes), bydd yn dal yn bosibl ystyried cais.

Hunan-ddarpar

Ystyrir ceisiadau pan fydd y busnes wedi creu neu'n bwriadu creu clwstwr o lety, (mae hyn yn golygu o leiaf 3 uned neu 12 o welyau). Y prosiectau sydd fwyaf tebygol o gael eu hystyried yn flaenoriaeth yw'r rheini lle bydd y safon yn codi i 4 neu 5 Seren, yn ogystal â chynyddu capasiti neu ddarparu cyfleuster canolog fel cynnyrch hamdden neu weithgaredd neu gynnyrch treftadaeth neu arloesol eithriadol unigryw. Bydd lefel yr arloesi, y safon a thystiolaeth o'r galw am y cynnyrch yn hollbwysig. Nid yw uned sengl neu niferoedd bychain o lety hunan-ddarpar yn flaenoriaeth.

Carafanio a Gwersylla (gan gynnwys Glampio)

Ystyrir cynigion pan gyrrhaeddir safon 4 Seren neu 5 Seren o leiaf, a phan gynigir gwerth ychwanegol, megis cyfleusterau hamdden neu weithgareddau. Rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau eithriadol sy'n unigryw, sy'n wahanol neu sydd â chryfderau amgylcheddol sylweddol. Ni fydd niferoedd bychain o unedau glampio neu fathau tebyg eraill o lety yn flaenoriaeth.

Llety o Fathau Eraill

Gan mwyaf, bydd hyn yn cynnwys hostelau, canolfannau gweithgareddau yn y sector preifat neu lety mewn byncws. Bydd cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer uwchraddio sy'n cyrraedd safon 4 neu 5 Seren o leiaf neu radd Llety Amgen. Gall prosiectau Canolfannau Gweithgareddau (sy'n cael eu harwain gan y sector preifat) gynnwys gwelliannau ac ychwanegiadau i'r gweithgaredd a gynigir, a bydd angen eu hachredu.

Bwytaï gydag Ystafelloedd / Bwytaï

Rhaid i'r llety fod o safon 4 neu 5 Seren. Rhaid i fwytaï ddangos tystiolaeth o naws am le, lleoliad, defnyddio bwyd o ffynonellau lleol, a chynnyrch o 'ansawdd' unigryw sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr. Rhoddir blaenoriaeth benodol i'r cynlluniau hynny sy'n gallu sicrhau achrediad addas ar gyfer ansawdd y bwyd a'r gwasanaeth (e.e. Rhosyn AA, Seren Michelin). O ran Bwytaï heb ystafelloedd, ar brydiau, gallai lleoliad penodol, naws am le, neu statws cyrchfan / cogydd enwog, olygu bod digon o 'nodweddion twristiaeth' nes eu bod yn haeddu cael eu hystyried.

Twristiaeth Golff

Bydd cynigion yn cael eu hystyried ar gyfer llety ar y safle mewn clybiau golff sy'n cynnig cwrs 18 twll ac sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr sy'n dod i chwarae golff. Yn yr achosion hyn, dylid sicrhau safon llety 4 Seren o leiaf. Gellid ystyried datblygu cyfleusterau clwb mewn cyrsiau 18 twll eraill petai hynny'n rhan o brosiect lle bydd y ddarpariaeth lety'n tywys y prosiect. Ffefrir llety mewn Gwesty/ â Gwasanaeth. Gellir hefyd ystyried buddsoddi mewn datblygu cyrchfannau golff 4/5 seren newydd neu rai sy'n bodoli eisoes mewn lleoliadau strategol.

Atyniadau a Gweithgareddau

Mae'r gwaith cymwys yn cynnwys amrywiaeth o fathau o wariant cyfalaf, ac fe all gynnwys creu elfennau newydd, yn ogystal ag uwchraddio cyfleusterau sy'n bodoli eisoes. Mae cynnwys arloesol sy'n gallu helpu i sicrhau bod ymwelwyr yn gwario rhagor yn arbennig o bwysig.

4. Pwy sy'n Gymwys

Pwy sy'n cael ymgeisio a phryd:

Dim ond **busnesau bach a micro** sy'n gymwys i ymgeisio. Mae categori menter fach neu ficro'n cyflogi llai na 50 o bobl a bydd ganddi drosiant neu fantolen flynyddol o lai na €10 miliwn. Mae'r mentrau canlynol yn gymwys, o bob rhan o Gymru:

- Busnesau yn y Sector Preifat (Newydd a rhai sy'n bod eisoes).
- Mentrau Cymdeithasol neu Sefydliadau Elusennol.

Byddwn yn agored i dderbyn ymholiadau gydol 2017-2020.

Am beth gall y grant dalu?

Cronfa gyfalaf yn unig yw hon. Nid oes modd ystyried costau refeniw. Gall y cymorth ar gyfer y cynllun hwn gynnwys asedau diriaethol megis tir, adeiladau, peiriannau ac offer ac asedau anniriaethol megis meddalwedd cyfrifiadurol, hawliau a thrwyddedau patent a ffioedd technegol ac ymgynghori.

- (a) adeiladu, caffael, neu wella eiddo sefydlog, gyda tir yn gymwys dim ond os nad yw'n mynd dros 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi;
- (b) prynu peiriannau ac offer hyd at werth yr ased o fewn y farchnad;
- (c) costau cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwariant y cyfeiriwyd atynt ym mhwyntiau (a) a (b), megis ffioedd pensaer, peiriannwr ac ymgynghorydd, ffioedd sy'n gysylltiedig â

chyngor ar gynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd cyn belled ag nad yw dros 12% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi;
(ch) caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadurol a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach.

Ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau dylunio technegol arall, arolygon safleoedd a ffioedd proffesiynol; ffioedd a chostau ceisiadau cynllunio; mae ffioedd o ganlyniad i ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau statudol hefyd yn gymwys hyd yn oed os ydynt wedi eu cwblhau a'u talu cyn eu cymeradwyo ar yr amod eu bod yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect.

Mae offer ail-law yn gymwys (ar gyfer BBaChau yn unig) pan fydd yr ymgeisydd yn gallu dangos y canlynol:

- Ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch presennol
- Yn addas at y diben, a;
- Bod o leiaf pum mlynedd o'i oes ar ôl

Yr hyn na chaiff y grant dalu amdano

Ni chaiff y gweithgareddau / cynnwys a ganlyn eu hystyried (ymysg eraill):

- Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw cyffredinol.
- Costau refeniw megis marchnata, gorbenion ac amser staff.
- Eitemau traul ac isel eu cost fel dillad gwely, cyllith a ffyrc, llestri ac ati.
- Prosiectau seilwaith newydd nad ydynt yn creu swyddi.
- Cynnyrch lle bydd risg uchel o ddadleoli (dim bwlch yn y farchnad).
- Prosiectau gwella na fydd yn creu'r swyddi gofynnol.
- Llety brand ym mhen isaf y farchnad.

5. Y Broses Holi ac Ymgeisio

Bydd pob prosiect yn cael ei arfarnu mewn dau gam:

Cam 1: Ar ôl cyflwyno ffurflen Holiadur Cychwynnol Cronfa Busnesau Micro a Bach, caiff archwiliadau eu cynnal i sicrhau bod amodau cymhwysedd a blaenoriaethu wedi'u bodloni. Dim ond y prosiectau sy'n bodloni'r amodau hyn, ac sy'n derbyn sgôr pasio fydd yn cael eu gwahodd i gyflwyno cais cyflawn. Cewch gopi o'r Holiadur Cychwynnol yn:

<https://businesswales.gov.wales/cy/zones/tourism/cyllid>

Cam 2: Caiff ceisiadau cyflawn eu harfarnu'n fewnol gan swyddog achos a'u hadolygu gan banel buddsoddi annibynnol, yn unol â'r meini prawf arfarnu isod. Bydd y prosiectau llwyddiannus yn cael eu hargymell i'r Gweinidog i'w hystyried a phenderfynu yn eu cylch.

6. Asesu

Dangosyddion

Bydd y cymorth yn cael ei fesur ar sail y dangosyddion isod, a bydd gofyn i'r ymgeiswyr baratoi adroddiad arnynt (lle bo hynny'n berthnasol):

- Nifer y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu, gan gynnwys y buddiolwyr sy'n cael cymorth ar gyfer buddsoddi mewn gweithgareddau y tu allan i faes amaethyddiaeth mewn ardaloedd gwledig.
- Nifer y gweithwyr a gefnogir o ran (a) Pobl Ifanc (15 i 24 mlwydd oed), (b) Menywod, ac (c) Siaradwyr Cymraeg.
- Cyfanswm yr ymyriad a'r arian cyfatebol.
- Nifer y daliadau / buddiolwyr sy'n cael cymorth i fuddsoddi mewn gweithgareddau y tu allan i faes amaethyddiaeth mewn ardaloedd gwledig.
- Nifer y gweithrediadau a gefnogir.
- Mae'r prosiect yn cyflawni blaenoriaethau'r gronfa ac yn atgyfnerthu brand Cymru, yn adlewyrchu'r gwerthoedd a'r agweddau craidd ac yn benodol ac yn cyflawni amcanion y brand craidd:
 - Yn codi statws Cymru.
 - Yn synnu ac yn ysbrydoli.
 - Yn atgyfnerthu agweddau cadarnhaol.
 - Yn gwneud pethau da.
 - Yn amlwg yn cynrychioli 'Cymru'.

Mae dolen at ragor o wybodaeth am frand Cymru i'w gweld yma: <https://cymruybrand.com/>.

Mae cynnwys 'brand' Cymru yn yr asesiad yn ein galluogi i ddehongli sut y bydd y prosiect yn cyflawni ar lefel strategol. Er enghraifft gellid ystyried y bydd cais sy'n rhagori mewn defnyddio cynnyrch lleol, yn darparu profiad arloesol, neu sy'n rhoi pwyslais ar ddiwylliant neu dreftadaeth, gan gynnwys ymdeimlad o le a'r defnydd o'r iaith Gymraeg, yn cyd-fynd â'r brand.

Meini Prawf a Chanlyniadau

Y prif feini prawf a'r pwyntiau i'w nodi yw:

- Lleiafswm y cymorth a roddir fel arfer fydd £25,000. Mewn achosion anarferol gellir cael rhywfaint o hyblygrwydd, a byddai modd ystyried achosion is eu gwerth, er enghraifft os oes nifer fawr o swyddi'n cael eu creu, neu budd economaidd sylweddol, neu gynnyrch eithriadol.
- Ni all y cymorth fod dros 40% o'r costau cyfalaf cymwys.
- Uchafswm y cymorth yw £500,000 fesul prosiect buddsoddi.
- Gall swm y cyllid fesul swydd gyfwerth ag amser llawn (CALI) fod hyd at £10,000. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o hyblygrwydd mewn achosion eithriadol lle bydd modd cyfiawnhau achos mwy sylweddol, strategol ac economaidd.
- Mewn achosion lle bydd lefel y cymorth yn llai na £100,000, ni fydd yr arian yn adaladwy. Mewn achosion lle bydd lefel y cymorth yn uwch na £100,000, gall fod elfen ddewisol (lleiafswm o 30%) o gyllid busnes ad-daladwy, ar sail achosion unigol.
- Cronfa i Gymru Gyfan yw hon. Serch hynny, mewn Ardaloedd nas Cynorthwyr (a lle y gwneir cais am gyllid sy'n fwy nag 20%), bydd lefel y cymorth yn cael ei chyfyngu yn ôl uchafsymiau'r cymorth de minimis, ac felly ni fydd yn fwy na'r swm cronnus sydd gyfwerth â 200,000 ewro dros y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol (gweler Adran 9 y nodyn hwn).

Disgrifiad	Ffordd o Fesur
Gradd Seren Croeso Cymru	I'w chyflawni cyn i'r grant gael ei thalu ac i'w chynnal drwy gydol cyfnod amodau'r grant. Adroddiad gan Croeso Cymru
Rydych yn darparu polisi amgylcheddol, gyda thargedau ar gyfer arbed ynni ac ynni adnewyddadwy.	Tystiolaeth i'w chyflwyno cyn i'r taliad olaf gael ei ryddhau.
Rydych yn ymrwymo i gwblhau arolygon deiliadaeth misol Croeso Cymru, sy'n rhai cyfrinachol, tan ddiwedd cyfnod yr amodau.	Ymrwymiad yn cael ei wneud cyn i'r taliad olaf gael ei ryddhau.
Eraill (yn ôl yr angen) • Swyddi a ddiogelwyd • Cyfanswm y cyflogeion a gefnogwyd • Cyflogeion a gefnogwyd – Pobl Ifanc • Cyflogeion a gefnogwyd – Menywod • Cyflogeion a gefnogwyd – Siaradwyr Cymraeg	

Cam 1 - Meini Prawf yr Ymholiad

Bydd yr ymholiad yn cael ei asesu ar sail y meini prawf canlynol:

- A yw'r sefydliad yn endid cyfreithlon ac yn gymwys i ymgeisio?
- A oes Caniatâd Cynllunio wedi'i roi eisoes, neu yn debygol o gael ei roi pan gaiff y cynnig ei wneud?
- A oes modd cwblhau'r prosiect erbyn mis Mawrth 2021?
- A yw'r swm y gofynnir amdano'n unol â chanllawiau'r cynllun?
- A oes unrhyw broblemau o ran Cymorth Gwladol?
- A yw'r prosiect yn flaenoriaeth ym maes twristiaeth ac yn gyson â brand Cymru?

Cam 2 - Meini Prawf Asesu

Arfarnu'r Cais a'i Sgorio

Yn ystod y cam ymgeisio, bydd y swyddog achos yn ysgrifennu papur a fydd yn asesu'r prosiect o safbwynt nifer o agweddau, gan gynnwys ansawdd, gwerth am arian a'r angen yn y farchnad. Rydym wedi crynhoi'r prif feini prawf priodol isod

	<i>Meini Prawf Gwerthuso</i>
1	Cyd-fynd yn Strategol • Yn cyd-fynd ag amcanion MSBF • Y flaenoriaeth wedi'i nodi • Yn cyd-fynd â thema blwyddyn Croeso Cymru, gyda'r pwyslais ar gynnyrch (h.y. Blwyddyn ...) • Yn cyd-fynd ag anghenion segmentau marchnad Croeso Cymru

	Yn gyson â brand Cymru
2	Prosiect - Ansawdd cyffredinol y cais a'r disgrifiad o'r cynnig - Budd ac effaith (e.e. a yw'n sicrhau manteision mesuradwy ar gyfer busnesau twristiaeth yn y gyrchfan) - Nodweddion arloesol a phrofiadau - Ystyriaethau amgylcheddol - Yn gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016, Trechu Tlodi, Prif-ffrydio Cyfle Cyfartal a Rhywedd, Safonau'r Gymraeg.
3.	Tystiolaeth o angen - Y rhesymau dros ymgymryd â'r gweithgaredd - Cyfeiriadau at y gweithgaredd yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau - Tystiolaeth ac Ymchwil ynglŷn â'r angen yn y farchnad
4.	Asesu'r Risg a Chynnal y Prosiect - Cynllun y prosiect a'r tîm - Asesu a lliniaru risg - Strwythur y Tîm Rheoli - Cydweithio ar y prosiect a chytundebau - Tystiolaeth o gostau a chyllido - Darparu
5.	Yr hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni - Ansawdd targedau'r prosiect - Canlyniadau a'r elfennau i'w cyflawni yn y prosiect a ddefnyddir i fesur llwyddiant y prosiect - Gwybodaeth fanwl am sut y caiff y rhain eu mesur - Yn cyflawni blaenoriaethau twristiaeth y cynllun, canlyniadau a dangosyddion y Rhaglen Datblygu Gwledig
6.	Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian - Mae'r cynnig cyffredinol yn cynrychioli gwerth am arian - Mae'r gweithgaredd a chostau cysylltiedig yn adlewyrchu dyfynbrisiau realistig a gwerth gorau - Mae costau'r prosiect yn rhesymol - Mae'r manteision disgwylidig yn gymesur â chostau - Mae'r cynaliadwyedd tymor hir yn dderbyniol - Gall effeithio ar y farchnadle dros gyfnod hwy - Mae'n amlwg bod y prosiect yn ychwanegu at werth

7. Cymeradwyo a Phenderfynu

Ar ôl i'r Panel ei adolygu, cyflwynir argymhellion i Weinidogion Llywodraeth Cymru i'w hystyried a phenderfynu yn eu cylch. Yna, rhoddir gwybod ichi am y penderfyniad terfynol ac os byddwch yn llwyddiannus anfonir llythyr cynnig cyllid atoch. Bydd angen llofnodi y ddau lythyr cynnig, a dychwelyd un copi i Lywodraeth Cymru. Rhaid peidio â 'dechrau gweithio' ar y prosiect (gan gynnwys y broses gaffael), na gwneud ymrwymiad ffurfiol, cyn

dyddiad dechrau'r prosiect, sy'n cael ei gynnig gan swyddog y prosiect. Gall y dyddiad hwn fod cyn y penderfyniad ffurfiol ar eich cais, trwy i swyddog anfon llythyr 'eich cyfrifoldeb chi' atoch. Yn yr achos hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd unrhyw ganlyniad dechrau ar y prosiect cyn derbyn cynnig ffurfiol o gymorth. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau wrth baratoi cais.

8. Proses Hawlio, Cyflawni a Monitro

Disgrifir y drefn dalu mewn llythyr cynnig. Os bydd gofyn trefnu cyfnodau hawlio ychwanegol, rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Tîm Monitro gan nodi'r rhesymau dros y newid. Bydd penderfyniad y Tîm Monitro'n derfynol. Bydd angen cydymffurfio ag amodau talu y prosiect fel y'u nodir yn y llythyr cynnig.

Mae Llywodraeth Cymru'n cadw'r hawl i adolygu'r penderfyniad i ddyfarnu cyllid os na lwyddir i gadw at amserlenni cyllido. Polisi Llywodraeth Cymru yw gwneud ôl-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli er hynny nad oes gan y rhan fwyaf o fudiadau'r Trydydd Sector lawer o arian wrth gefn ac nad oes ganddynt yr adnoddau i gynnal gwaith a chael eu talu amdano wedyn. Yn achos ymgeiswyr o'r Trydydd Sector, os oes angen taliad ymlaen llaw ar eich mudiad, dylech ddweud hynny ar y cychwyn, a chaiff ffurflen ei rhoi ichi. Dylech ei llenwi a'i dychwelyd fel y gallwn benderfynu a ellir cynnig cymorth o'r math yma.

Bydd amserlen benodol i'w chyflawni ar gyfer pob prosiect. Pennir hyn yn y llythyr cynnig. Mae sicrhau arbenigedd rheoli prosiect yn bwysig iawn oherwydd oni chedwir at yr amserlen sydd yn y cynnig, bydd y prosiect yn colli ei arian. Gellir cyflwyno ffurflenni hawlio yn electronig ond ni chânt eu prosesu tan i dystiolaeth lawn gael ei chyflwyno a'i hasesu. Ar ôl cymeradwyo'r cais, bydd y taliad yn cael ei wneud o fewn 4 diwrnod gwaith. Rhaid cyflwyno adroddiadau cynnydd a thystiolaeth gyda phob hawliad, ac amcangyfrifir y bydd angen rhyw 30 diwrnod i brosesu hawliad o'r adeg y derbynnir hawliad cyflawn hyd ei awdurdodi.

Monitro'r Prosiect ar ôl ei Gwblhau

Bydd cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt dal i gael eu cofnodi am 5 mlynedd o leiaf ar ôl gorffen y prosiect a bydd hyn yn un o amodau'r cynnig.

9. Cymorth Gwladwriaethol

Mae'r cynllun hwn yn cydymffurfio â gofynion Erthygl 19 Rheoliad (UE) 1305 / 2013 (Rheoliadau Datblygu Gwledig).

Bydd grantiau a roddir o dan y cynllun hwn yn cydymffurfio'n llawn â Chymorth Buddsoddi Cyfalaf Llywodraeth Cymru a'r Cynllun Cymorth gyda Chyflogaeth – Cyfeirnod Cymorth Gwladol rhif: SA.49662

Y grantiau fydd yn cael eu darparu o dan y cynllun hwn ar gyfer y gweithgareddau hynny sydd y tu allan i gwmpas y cynllun uchod fydd cymorth sy'n cydymffurfio â Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/2013 (Rheoliad De Minimis Cyffredinol).

http://ec.europa.eu/competition/state_aid/legislation/de_minimis_regulation_en.pdf

Ar gyfer lleoliadau Ardal a Gynorthwyr gweler:

<http://www.ukassistedareasmmap.com/ieindex.html>.

10. Caffael yn yr Undeb Ewropeaidd

GOFYNION O RAN TENDRO CYSTADLEUOL A CHAFFAEL

Mae Cyfarwyddbau Caffael y Comisiwn Ewropeaidd yn berthnasol i contractau a gyllidir neu a gyllidir yn rhannol gan Gronfeydd yr UE. Mae'r rheolau llawn ar Gaffael Cyhoeddus yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a menter fasnachol yn y sector preifat sy'n cael cymorth grant o 50% neu fwy o gyfanswm costau'r prosiect ac eithrio TAW. Gan nad yw'r cymorth grant a roddir ichi o dan y **Gronfa Busnesau Micro a Bach yn fwy na 49%**, nid yw'r rheolau ar gaffael cyhoeddus yn berthnasol ichi. Bydd gofyn ichi, felly, ddilyn y **broses Tendro Cystadleuol** a amlinellir isod:

Mae tri phrif nod i dendro cystadleuol:

- Dangos tegwch o ran cyfleoedd i gyflenwyr gyfrannu at weithgareddau buddsoddi sy'n cael eu cyllido gan yr UE
- Gwella gallu cyflenwyr i gystadlu
- Dangos bod costau prosiectau yn rhesymol

Rhaid ichi ddangos eich bod wedi defnyddio arferion teg ac agored drwy ddefnyddio ymarfer tendro cystadleuol ar gyfer yr holl waith, nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect ac yr ydych yn bwriadu hawlio cymorth grant ar eu cyfer.

Rhaid cyflawni'r gofynion cywir o ran tendro cystadleuol a rhaid cynnwys yr amser y bydd ei angen i wneud hynny yn y cynllun cyflawni ar gyfer y prosiect. Penderfynir ar y trothwy ar gyfer gwerth nwyddau neu wasanaethau ar sail y **pris ar yr anfoneb derfynol** ac nid ar sail y gwerthoedd cychwynnol a roddir mewn amcangyfrif neu ddyfynbris (heb gynnwys TAW). Er enghraifft, os yw'r dyfynbris yw £4,990 ond y swm ar yr anfoneb yn £5,020, yna byddai angen **o leiaf 3 dyfynbris ysgrifenedig** o dan y gofynion tendro cystadleuol.

Rhaid cadw at y gofynion a ganlyn o ran cyfanswm gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a brynir **heb gynnwys TAW**.

Gwerth terfynol yr hyn sydd i'w brynu	Gofyniad Tendro Cystadleuol	Gweithredu
Llai £5,000	Un dyfynbris ysgrifenedig	Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru
Mwy na £5,000	O leiaf dri dyfynbris ysgrifenedig	Argymhellir defnyddio cyflenwyr sydd wedi cofrestru ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru

Cystadleuaeth Agored

Rhaid ichi sefydlu proses sy'n asesu rhinweddau'r dyfynbrisiau mewn ffordd ddiudedd: (achos busses, gyda rhagamcangyfrif dilys o gost ac angen).

Rhaid i'r disgrifiad o'r contract beidio â bod yn wahaniaethol; ni chewch gyfeirio at frand, cymhwyster, ardystiad, tarddiad penodol neu nod masnach penodol.

Rhaid ichi ei gwneud yn glir y bydd pethau cyfwerth yr un mor ddilys. Rhaid ichi sicrhau nad

oes unrhyw wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol yn erbyn cynigwyr o Aelod-wladwriaethau eraill.

Rhaid darparu'r holl wybodaeth ymlaen llaw, gan gynnwys amcangyfrif o werth y contract os oes modd, yn y cyfarwyddiadau i'r cynigwyr / yn y fanyleb / yr hysbyseb / yr hysbysiad am y contract Rhaid ichi drefnu bod yr un wybodaeth am y cyfle i gael contract ar gael i bob parti sydd â diddordeb.

Cyflenwyr

Rhaid darparu tystiolaeth sy'n dangos pa gyflenwyr y cysylltwyd â hwy ac y gofynnwyd iddynt gyflwyno dyfynbris; rhaid i'r dystiolaeth honno gynnwys y dyddiad y cysylltwyd â hwy ac at bwy yn y cwmni yr anfonwyd yr ymholiad. **Rhaid** i'r dogfennau sy'n rhoi dyfynbris gynnwys yr holl wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn adnabod y cyflenwr, gan gynnwys cyfeiriad, manylion cyswllt a Rhif Cofrestru'r Cwmni (Rhif TAW os yw'n berthnasol). Ni cheir rhannu cost eitem a gaffaelir oddi wrth y cyflenwr yn symiau llai er mwyn osgoi defnyddio'r gofyniad cywir o ran tendro cystadleuol. Ni cheir rannu contract y cytunwyd arno na dyfynbris a gyflwynwyd yn rhannau llai ac ni cheir tynnu eitemau unigol allan o'r contract neu'r dyfynbris i'w darparu ar wahân. Bydd hynny'n gyfystyr â phrynu o'r newydd a bydd **rhaid** defnyddio'r gofynion tendro cystadleuol eto.

Gwrthdaro Buddiannau

Os oes canfyddiad bod gwrthdaro buddiannau rhyngoch a'r cyflenwyr y gofynnir iddynt ddarparu dyfynbrisau, neu os oes gwrthdaro o'r fath – er enghraifft, gofyn am ddyfynbrisau oddi wrth gwmnïau cysylltiedig, **rhaid esbonio hynny yn y dogfennau ategol sy'n rhan o'r broses dendro cystadleuol. Os yw'n bosibl bod gwrthdaro o'r fath, rhaid cymryd camau i'w atal a chofnodi'r camau hynny.**

Dyfynbrisiau

Bydd gofyn cael o leiaf dri dyfynbris os bydd yr hyn a brynir yn werth £5,000 neu fwy. Dim ond un dyfynbris sy'n ofynnol os bydd gwerth yr hyn a brynir yn llai na £5,000. Ar adegau prin, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu cael tri dyfynbris, er enghraifft, yn achos gwaith/gwasanaethau arbenigol iawn. Os ydych yn credu bod llai na 3 chyflenwr ar gael, dylech gysylltu â RPW Ar-lein cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb, er mwyn ceisio cyngor ynglŷn â nifer is o ddyfynbrisau. Os nad yw'r gwaith yn arbenigol, ond yr ydych yn cael trafferth dod o hyd i gyflenwyr sy'n barod i roi dyfynbrisau, dylech gadw tystiolaeth fanwl ynglŷn â phwy yr ydych wedi gofyn am ddyfynbrisau oddi wrthynt, a phryd y gwnaethoch hynny. Er mai dim ond 3 dyfynbris y mae'n ofynnol ichi eu cyflwyno, disgwylir ichi gysylltu â mwy na 3 chyflenwr os nad ydych yn llwyddo i gael dyfynbrisau.

Y Broses Ddethol

Rhaid i ddyfynbrisau a ddaw i law gael eu hystyried yn deg a rhaid cofnodi'n ysgrifenedig y rheswm(rhesymau) dros ddewis cyflenwr penodol.

Byddem yn disgwyl ichi ddewis y dyfynbris rhataf. Os nad ydych, o dan amgylchiadau eithriadol, yn defnyddio'r rhataf o'r tri dyfynbris, **rhaid** ichi ddarparu esboniad ysgrifenedig yn nodi'r sail resymegol a'r rhesymau dros ddewis y cyflenwr a gafodd ei ddethol. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn capio'r grant ar sail gwerth y dyfynbris isaf.

Cofrestr a Chofnod ar ffurf Dogfennau ar gyfer y Broses Tendro Cystadleuol

Rhaid ichi gofnodi'r holl broses tendro cystadleuol gan ddefnyddio Cofrestr a Chofnod Tendro Cystadleuol Llywodraeth Cymru.

Mae [Cofrestr a Chofnod Tendro Cystadleuol](#) i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yma.

Cywiriadau a Sanctsiynau

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y broses tendro cystadleuol yn cael ei dilyn yn gywir, ei bod yn cael ei chofnodi'n llawn a bod y dogfennau hynny ar gael os gwneir cais i'r perwyl hwnnw. Mae cryn risg y gallai'r grant gael ei adennill, naill ai'n llawn neu'n rhannol, os na ddilynir y broses tendro cystadleuol yn gywir ac os na chedwir y dogfennau ar ei chyfer.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd fod yn unol â Chanllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Golyga hyn bod yn rhaid, wrth ddefnyddio Gwerthwch i Gymru neu wneud cais am ddyfynbrisiau, ei wneud yn glir bod y prosiect yn brosiect sy'n cael ei ariannu gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, fel a nodir yn benodol yn y canllaw hwn ac yn unol â'r canllawiau isod:

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/publications/11012520/?skip=1&lang=cy>

Nid yw'r cyfnod ar gyfer cynnig contractau wedi'i nodi ond dylai fod yn gymesur ac yn rhesymol. Awgrymir cyfnod o 21 niwrnod o leiaf.

11. Safonau'r Gymraeg

Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor yn fuan ynghylch gofynion dwyieithrwydd eu prosiectau a sicrhau bod pob agwedd wedi'i chostio a'i chynnwys yn eu cynigion. Caiff y gofynion o ran y Gymraeg eu nodi mewn dogfen gynnig a gallai gynnwys (fel sy'n briodol):

- Arwyddion a deunyddiau addysgol, rhyngweithiol a deongliadol dwyieithog.
- Argraffu deunydd marchnata dwyieithog, oni bai bod y prosiect yn targedu cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru yn unig.
- Gwefan ddwyieithog.
- Cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, heblaw mai'r bwriad yw eu defnyddio ar gyfer cynulleidfaoedd y tu allan i Gymru.
- Cyfleoedd Hyfforddi a Datblygu Pobl ynglŷn â'r Gymraeg.
- Hysbysebu Swyddi'n ddwyieithog.
- Cyllun Gweithredu a Pholisi ar gyfer y Gymraeg.

12. Cyhoeddusrwydd

Bydd angen ichi gydnabod y gefnogaeth ar bob cyhoeddusrwydd, datganiad i'r wasg a deunydd marchnata a gyhoeddir gan nodi ei fod wedi dod trwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 -2020, sy'n cael ei noddi gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru. Rhaid i gydnyddiaeth o'r fath fod ar ffurf sy'n cael ei chymeradwyo gennym ni a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru, fydd yn cael eu hanfon atoch wedi ichi dderbyn y cynnig am gyllid.

<https://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/wales-rural-network/publications/11012520/?skip=1&lang=cy>

13. Datganiad Preifatrwydd Diogelu Data

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#). Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

14. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i wireddu'r weledigaeth i Gymru sydd yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos pa fath o Gymru y carwn ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir ei bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i wireddu'r nodau i gyd, nid dim ond un neu ddau. Bydd cyfeirio at sut mae'ch prosiect yn cyflawni'r nodau hyn, ac esbonio hynny, yn bwysig wrth inni asesu cais. Mae'r nodau llesiant i'w gweld yma: <http://gov.wales/topics/people-andcommunities/people/future-generations-act>

15. I gael rhagor o wybodaeth:

Swyddogion Achos Rhanbarthol

Enw	Lleoliad	Cyfeiriad e-bost	Rhif Ffôn
Phil Griffiths	Gogledd/Canol barth	Phil.griffiths@gov.wales	0300 062 5397
Theresa Cartlidge	De-ddwyrain/ Abertawe, CNPT a'r Canolbarth	Theresa.cartlidge@gov.wales	0300 061 5710
John Woodward	De-orllewin/ Canolbarth	John.woodward@gov.wales	0300 062 2413